

**COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR CRAFFU AR DDIOGELU,  
CYMUNEDAU, A LLES/PWYLLGOR CRAFFU TROSEDD AC ANRHEFN A  
GYNHALIWYD YN YSTAFELL GYFARFOD 1, NEUADD Y DREF AR DYDD  
MERCHER, 17 GORFFENNAF 2019**

**AELODAU**

Y Cynghorydd Derek Wright, Cadeirydd  
Y Cynghorydd Beverley Parry-Jones, Is-Gadeirydd

Y Cynghorydd	Trevor Bates	Y Cynghorydd	John McCusker
"	I David Bithell, MBE	"	John Pritchard
"	Brian Cameron	"	Rondo Roberts
"	Krista Childs	"	Robert Walsh
"	Russell Gilmartin	"	Nigel Williams
"	Gwenfair Jones		

\*Yn absennol

Hefyd yn bresennol – Y Cynghorwyr Joan Lowe

**16 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cyflwynwyd ymddiheuriad am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr Trevor Bates, Krista Childs, Russell Gilmartin, John McCusker, Rondo Roberts a Nigel Williams.

**17 CADARNHAU COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2019 a 27 Mehefin 2019.

**CYTUNWYD – Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2019 a 27 Mehefin 2019 fel cofnod cywir a'u llofnodi.**

**18 MONITRO CYTUNDEB GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Bobl – Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Oedolion adroddiad (COSC/13/19s) a oedd yn darparu manylion i'r Aelodau ar drefniadau monitro cytundebau o fewn Gofal Cymdeithasol.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol ar y cyd â'r Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'r Rheolwr Contractau i Ofal Cymdeithasol i Oedolion yr adroddiad gan egluro fod gan Ofal Cymdeithasol i Oedolion fframwaith monitro contractau wedi'i hen sefydlu oedd yn parhau i gael ei ddatblygu ar y cyd â Darparwyr, asiantaethau partner fel Iechyd ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a thrwy weithio ar y cyd gydag Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru. Cydymffurfedd â gofynion cytundebol a safonau Cenedlaethol wedi'u monitro'n ofalus. Yn ogystal, fe dderbyniodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol/Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion adroddiad misol yn crynhoi perfformiad y Darparwyr mewnol ac allanol, a darparwyd

crynodeb ar adborth ynglŷn â gofal preswyl / cartref gofal gyda nyrso gan ddefnyddwyr gwasanaeth a pherthnasau dros y pedair blynedd diwethaf.

Mae'r tîm contractau hefyd wedi mabwysiadu fframwaith monitro Gogledd Cymru sydd yn defnyddio dulliau arsylwadol wrth adolygu perfformiad darparwyr. Adborth gan bobl sydd wedi derbyn gofal cartref dros y tair blynedd diwethaf wedi'i ddarparu yn Atodiad B.

Ystyriodd yr Aelodau yr adroddiad a chyfeiriwyd at y materion canlynol yn benodol:

- Cydnabyddiaeth, yn gyffredinol, fod lefelau boddhad defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd yn parhau i fod yn uchel ac yn gwella.
- Mewn ymateb i gwestiwn Aelod, fe gadarnhaodd y Rheolwr Contractau dros Ofal Cymdeithasol i Oedolion bod y gallu i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn ofyniad Cofrestru – fodd bynnag byddai'r argaeledd yn dibynnu ar batrymau shifft/oriau'r gofalwr.
- Gofynnwyd am eglurhad ar sut y mae'r Awdurdod yn paratoi ar gyfer achosion enfawr fel cau Cartref Gofal.  
Sicrhaodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion fod cynlluniau a gweithdrefnau wrth gefn yn eu lle ac mai anaml iawn fyddai pethau'n digwydd heb rybudd o flaen llaw.
- Gofynnwyd am eglurhad a sicrwydd yn ymwneud â'r gefnogaeth ar gael mewn achos lle byddai pobl angen symud o'u cartrefi mewn achos o gau adnodd.
- Gofynnwyd am eglurhad ar nifer y Cartrefi Gofal o Bryderon Cynyddol.  
Mae Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion wedi cadarnhau bod yna bedwar cartref ar hyn o bryd yn Bryderon Cynyddol.
- Bu trafodaethau am lefel yr hyfforddiant i Ofalwyr.  
Dywedodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion wrth y Pwyllgor y byddai cymhwyster newydd i staff lechyd a Gofal Cymdeithasol yn dod i rym o Fedi 2019.
- Cadarnhad o 1 Ebrill 2020 bod yn rhaid i holl staff gofal cartref fod wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.
- Cydnabyddiaeth gan yr Aelod Arweiniol y bydd hyfforddiant a datblygiad ar gael i'r sector gyfan ac o ganlyniad mae'r awdurdod wedi cadw'r gyllideb hyfforddi.
- Cydnabyddiaeth o gyraeddiadau gofalwyr yn cael eu cydnabod mewn seremonïau gwobrwyo sy'n cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn.
- Cadarnhau fod gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) yn cael eu gwneud ar staff cartref gofal.
- Gofynnwyd am eglurhad ar archwiliadau cartrefi gofal.
- Awgrym gan Aelodau, fod gwelliannau pellach yn bosib, yn enwedig ar lefel hyfforddiant staff, cadw gafael ar staff a rhoi digonedd o amser i ddarllen adroddiadau gofal cyn ymweld â chlaf.

#### **CYTUNWYD -**

- (i) Bod y Pwyllgor yn croesawu'r adroddiad ac yn diolch i'r Swyddogion a'r Aelod Arweiniol am y gwelliannau a gyflawnwyd gan yr Adran.**
- (ii) Credwn fod gwelliannau pellach yn bosib, yn enwedig ar lefel**

**hyfforddiant staff, cadw gfael ar staff a rhoi digonedd o amser i ddarllen adroddiadau gofal cyn ymweld â chlaf. Edrychwn ymlaen at yr adroddiad nesaf a dylid cynnwys y pwyntiau a dynnwyd sylw atynt i'w gwella.**

Y Cyngorydd Derek Wright  
Cadeirydd